OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 972 (Cy.88)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Dynodi Ysgolion Sydd â Chymeriad Crefyddol (Cymru) 2007

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *21 Mawrth 2007* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Mai 2007* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 69(3) a (4) a 138 (7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), ac wedi dilyn y weithdrefn a bennir yn Rheoliadau Ysgolion Sydd â Chymeriad Crefyddol (y Weithdrefn Ddynodi) 1998(**3**).

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Dynodi Ysgolion Sydd â Chymeriad Crefyddol (Cymru) 2007.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Mai 2007.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Dirymu

**2.** Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn cymryd lle Gorchymyn Dynodi Ysgolion Sydd â Chymeriad Crefyddol (Cymru) 1999(**4**), a Gorchymyn Dynodi Ysgolion Sydd â Chymeriad Crefyddol a Diwygiadau (Cymru) 2004 (**5**).

### Dehongli

**3.** Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y grefydd neu'r enwad crefyddol perthnasol" ("*the relevant religion or religious denomination*") yw'r grefydd neu'r enwad crefyddol y mae'n ofynnol, neu y gall

(**1**) 1998 p.31. Diwygiwyd adran 69 gan adran 215(1) o Ddeddf Addysg 2002, a pharagraff 104 o Atodlen 21 iddi (p. 32). *Gweler* adran 142(1) i gael ystyr "*prescribed*" a "*regulations*"
(**2**) *Gweler* erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.
(**3**) O.S. 1998/2535.
(**4**) O.S. 1999/1814.
(**5**) O.S. 2004/ 1734 (Cy. 177)

fod yn ofynnol, darparu addysg grefyddol mewn ysgol yn unol â'i daliadau neu â'i ddaliadau yn unol ag Atodlen 19 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**6**).

**Dynodi'r Ysgolion**

**4.**—(1) Dynodir yr ysgolion a restrir yn Yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn ysgolion sydd â chymeriad crefyddol.

(2) Y grefydd neu'r enwad crefyddol perthnasol mewn perthynas ag ysgol a restrir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yw—

(a) Yr Eglwys yng Nghymru, yn achos ysgol a restrir yn Rhan I o'r Atodlen;

(b) Yr Eglwys Gatholig Rufeinig, yn achos ysgol a restrir yn Rhan II o'r Atodlen; ac

(c) Ysgol Gatholig Rufeinig ac Anglicanaidd, yn achos ysgol a restrir yn Rhan III o'r Atodlen.

Llofnodwyd ar ran y Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**7**).

*D. Elis-Thomas*
21 Mawrth 2007 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**6**) Diwygiwyd Atodlen 19 gan adran 215(1) o Ddeddf Addysg 2002 a pharagraff 117 o Atodlen 21 iddi.
(**7**) 1998 p.38.

YR ATODLEN Erthygl 4

# RHAN I

## YSGOLION SYDD Å CHYMERIAD
## CREFYDDOL YR EGLWYS YNG NGHYMRU

| *AALl* | *Rhif AALl* | *Rhif yr Ysgol* | *Enw'r Ysgol* |
|---|---|---|---|
| **YSGOLION CYNRADD GWIRFODDOL A GYNORTHWYIR** | | | |
| Gwynedd | | | |
| | 661 | 3305 | Ysgol Beuno Sant |
| Conwy | | | |
| | 662 | 3302 | Ysgol Bodafon |
| | 662 | 3307 | Ysgol San Siôr |
| | 662 | 3340 | Ysgol Y Plas |
| Sir Ddinbych | | | |
| | 663 | | Ysgol Trefnant |
| Sir y Fflint | | | |
| | 664 | 3303 | Ysgol Yr Esgob — Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir |
| | 664 | 3316 | Ysgol Trelawnyd — Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir |
| | 664 | 3317 | Ysgol y Rheithor Drew — Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir |
| | 664 | 3320 | Ysgol Y Llan, Chwitffordd — Ysgol Gynradd Wirfoddol |
| | 664 | 3330 | Ysgol Gynradd Sant Ethelwold |
| | 664 | 3331 | Ysgol Gynradd Pentrobin |
| Wrecsam | | | |
| | 665 | 3043 | Ysgol Gynradd Sant Paul — Ysgol Gynradd Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru a Gynorthwyir |

| *AALl* | *Rhif AALl* | *Rhif yr Ysgol* | *Enw'r Ysgol* |
|---|---|---|---|
| | 665 | 3301 | Ysgol Gynradd Bronington |
| | 665 | 3305 | Ysgol Gynradd Madras |
| | 665 | 3326 | Ysgol Gynradd Hanmer |
| | 665 | 3337 | Ysgol Gynradd Minera |
| | 665 | 3338 | Ysgol Gynradd yr Holl Seintiau, Gresffordd |
| | 665 | 3341 | Ysgol Gynradd y Santes Fair (Rhiwabon) |
| | 665 | 3342 | Ysgol Gynradd y Santes Fair (a Gynorthwyir) |
| | 665 | 3346 | Ysgol y Santes Fair — Ysgol yr Eglwys yng Nghymru (a Gynorthwyir) |
| Powys | | | |
| | 666 | 3300 | Llanfihangel yng Ngwynfa |
| | 666 | 3301 | Ysgol Sant Mihangel — Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru (a Gynorthwyir) |
| | 666 | 3303 | Ysgol Llansanffraid — Ysgol yr Eglwys yng Nghymru (a Gynorthwyir) |
| | 666 | 3314 | Ysgol y Clas-ar-Wy — Ysgol yr Eglwys yng Nghymru (a Gynorthwyir) |
| | 666 | 3316 | Ysgol Llanbedr — Ysgol yr Eglwys yng Nghymru (a Gynorthwyir) |
| | 666 | 3317 | Ysgol yr Archddiacon Griffiths — Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru |

| *AALl* | *Rhif AALl* | *Rhif yr Ysgol* | *Enw'r Ysgol* |
|---|---|---|---|
| | 666 | 3318 | Ysgol y Priordy — Ysgol yr Eglwys yng Nghymru |
| Ceredigion | | | |
| | 667 | 3317 | Ysgol Gynradd Gymorthedig Llanwenog |
| Sir Benfro | | | |
| | 668 | 3310 | Ysgol Dewi Sant — Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir |
| | 668 | 3315 | Ysgol Sant Aidan — Ysgol Gynradd Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru a Gynorthwyir |
| | 668 | 3320 | Ysgol Sant Marc — Ysgol Gynradd Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru a Gynorthwyir |
| | 668 | 3321 | Ysgol Sant Oswald — Ysgol Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru a Gynorthwyir |
| Sir Gaerfyrddin | | | |
| | 669 | 3302 | Llanfynydd — Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir |
| | 669 | 3307 | Ysgol Wirfoddol Penboyr |
| | 669 | 3321 | Ysgol Pentip — Ysgol Gynradd Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru a Gynorthwyir |
| | 669 | 3322 | Ysgol Model — Ysgol yr Eglwys yng Nghymru |
| Abertawe | | | |
| | 670 | 3306 | Ysgol Christchurch — Ysgol yr Eglwys yng Nghymru |